

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fercher,
2 Hydref 2019 yn Canolfan y Fron**

**Minutes of the Finance Committee Meeting held at Canolfan y Fron,
Wednesday, 2 October 2019 at 7.00pm**

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ;David C Davies; Bryn Williams;
Eddie Willcox; Hywel J Owen ; David Roberts Rheolwr/Manager.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome
Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cyng. David C Davies.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences
Cyng. Gerwyn Owen.

**3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan
Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth
Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest
by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local
Government Act 2000**

Cyng. Alun Wyn Jones a Cyng David C Davies – eitem 8. Y ddau yn aelodau o Bwyllgor Neuadd Y
Groeslon. Gofynnwyd i'r ddau aros yn y cyfarfod ar gyfer yr etem i egluroy cais i'r aelodau.

**4 Cyfrifon 2018-19 – Adroddiad yr Archwilydd Allanol / 2018-19 Accounts
Report of the External Auditor**

**Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llandwrog – Archwiliad ar
gyfer y flwyddyn ddaeth i ben i 31 Mawrth 2019- Issues Arising Report for
Llandwrog Community Council – Audit for the year ended 31 March 2019**

Trafodwyd cynnwys adroddiad yr archwilydd.

Codwyd y materion canlynol-

- 1) Wedi ymateb ydi lle dylai ddangos "amherthnasol " i'r cwestiwn ynglyn cronfeydd elusennol yn Rhan 2
- 2) Dim cyfeirnod cofnod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad

Diolchwyd i'r Rheolwr am ei waith

Argymhelliad i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad.

Recommendation to the Council - For the Council to accept the Auditors Report.

5 Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Ail Chwarter – 2019-20 Budget Second Quarter Review

Dosbarthwyd copïau o'r canlynol i bob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 30 Medi 2019
- Cysoniad y Banc i 30 Medi 2019
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant 30 Medi 2019 ac Ymrwymadau at 31 Mawrth 2020
- Balansau y Cyngor ar 30 Medi 2019
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 30 Medi 2019

'Roedd y Rheolwr eisoes wedi anfon copïau o'r uchod i bob aelod ymlaen llaw.

Gofynnwyd ambell i gwestiwn gan yr aelodau ar rhai o'r ffigyrau ac roeddynt yn fodlon gydag ymateb y Clerc.

Cymeradwywyd y papurau ac fe'i harwyddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -I

Cysoniad y Banc i 30 Medi 2019 / Bank Reconciliation to 30 September 2019	
Balansau'r Banc i 30 Medi/September 2019 – Balances in the Bank	(£47,945.91)
- Llai Credydwyd a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£6,728.57
+ Dyledwyr / Debtors	(£218.46)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Medi 2018 / Sub Total	(£41,435.80)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	dim
Is-gyfanswm / Sub Total	(£41,435.80)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2020 / Committed Expenditure to 31 March 2020	£37,151.75
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2020/ Income due to 31 March 2020	(£2,715.95)
Is-gyfanswm / Sub Total	(£7,000.00)
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£7,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2020 / Total Overspent (u spend expected as at 31 March 2020	(dim)

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Medi 2019 / Specific Funds as at 30 September 2019	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£2,000.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	(£7,000.00)

Nodwyd y canlynol -

Pennawd "Datblygiadau" 2019-20 –

- Cyllideb gychwynnol yn £620.00

Addasiadau y ystod y flwyddyn r –

- + Tanwariant 2019-20 £2,432.97
- + Ad-daliad yswiriant gan Gwmni Beechcroft Lloches Bws Cae'r Moel £2,178.69
- + Cyllideb lwfansau Aelodau £900.00
- + Gwarged o gyllideb Pensiwn £438.37
- - Amrywiol Eraill (man addasiadau) (£796.46)

Yn rhoi cyfanswm o **£5,813.57 yn y gyllideb Datblygiadau heb ymrwymiad**

Nodwyd fod sawl pennawd arall yn y gyllideb heb ei ymrwymo cyfwerth a **£2,153.67** yn rhoi cyfanswm o **£7,697.24** ar gael ar gyfer Datblygiadau yn y flwyddyn 2019-20.

Nodwyd gan y Rheolwr fod datblygu gwefan y Cyngor wedi ei adnabod gan y Cyngor fel blaenoriaeth. Bydd angen pori dros ganlyniad yr holiaduron cyn llunio rhestr o waith cyn ymrwymo dim pellach o'r gyllideb

Argymhelliad i'r Cyngor-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd**
- ii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna swm o £5,813.57 yn y gyllideb ar y pennawd "Datblygiadau" yn 2019/20**
- iii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna tanwariannau posibl eraill o £1,883.67 yn y gyllideb ond yn cadw yr arian wrth gefn ar hyn o bryd.**
- iv) Fod y Cyngor yn ymrwymo £2,000 o'r gyllideb datblygiadau ar gyfer datblygu'r gwefan a £3,500 ar gyfer lloches bws Carmel yn unol a rhestr blaenoriaethau y Cyngor**

Recommendaton to the Council-

- i) That the Council accepts the balances as noted**
- ii) That the Council notes that there is a balance of £5,813.57 in the "Development" heading in the 2019-20 budget.**
- iii) That the Council keeps the remaining potential underspend of £1,883.67 in the budget until the next budgetary review is held & to keep the balance uncommitted at this stage.**
- iv) That the Council accepts that developing the website is the priority & earmarks £2,000 for the purpose and earmarks £3,500 for the bus shelter in Carmel.**

6 Blaenoriaeth Gwariant / Spending Priority

Dosbarthwyd Rhestr Blaenoriaeth Gwariant y Cyngor i bob Aelod.

'Roedd y rhestr wedi ei gymeradwyo nôl yn Hydref 2018 ond fod y Rheolwr wedi ychwanegu rhai materion iddo yn benodol Datblygu Gwefan a Chyfrwng Cymdeithasol (Social Media)

Bwriedir dosbarthu'r Rhestr i bob aelod yn cyfarfod nesaf o'r Cyngor (21 Hydref) fel bod pob aelod yn cael y cyfle i gynnwys unrhyw wariant sydd ei angen yn ei wardiau cyn sefydlu cyllideb 2020-21.

Sylwadau Aelodau –

GOJ - bydd rhaid ystyried canlyniad yr ymgysylltu a chynnwys y materion hynny oedd yn codi pryderon y trigolion yn os oes gan y Cyngor y grym i wneud y gwariant.

Trafodwyd llochesi bws.

EW - yn atgoffa aelodau fod Grŵp Alexandra wedi rhoi caniatâd i osod lloches bws yn Cwm, Y Fron Yn awgrymu cael contractwr i osod y slab concrid mewn lle gan ddisgwyl y bydd Cyngor Gwynedd yn adnewyddu llochesi Y Groeslon yn fuan.

Hefyd yn awgrymu i'r Cyngor osod lloches ger Mynedfa'r Maes Awyr yn Dinas Dinlle.

BW - cytuno fod angen lloches bws yn Dinas Dinlle ond mae'r gofyn amdano yn y pentref a ddim y Maes Awyr..Awgrymodd y dylid gofyn i'r Maes Awyr i'w ariannu neu gyfrannu os bwriedir gosod lloches yno.

Rheolwr yn awgrymu y dylai'r aelodau ystyried ofyn i Gyngor Gwynedd osod ac ariannu lloches ym maes parcio'r traeth ar yr adeg y bydd y safle yn cael ei ddatblygu i dderbyn taliad am barcio.

GOJ - nid oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn yn yr ymgysylltu yn cyfeirio at yr angen am lochesi bws. Rhaid cadw hynny mewn cof.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) **Fod y Cyngor yn rhoi'r cyfle i bob aelod gynnwys unrhyw wariant sydd ei angen yn ei wardiau oddifewn i grym y Cyngor***
- ii) **Fod y Cyngor, wedi derbyn y wybodaeth gan yr Aelodau, yn gofyn i'r Pwyllgorau i sgorio'r rhestr cyn sefydlu cyllideb 2020-21***
- iii) **Fod trafodaeth ar lochesi bws yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo***

Recommendation to Council –

- i) That the Council gives all members the opportunity to include expenditure required within their wards within the powers that the Council.***
- ii) That the Council, having received the above information from Members, asks the Committees to score the list before establishing the 2020-21 budget.***
- iii) That discussion on the bus shelters is referred to the Cemeteries & Property Committee***

7 Cyllideb 2020-21 – Cam Cyntaf / 2020-21 Budget – Stage 1

Dosbarthwyd y gyllideb gychwynnol i'r aelodau oedd wedi ei ddarparu gan y Rheolwr .

Nodwyd gan y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid -

Sefydlwyd cyllideb 2019-20 fel a ganlyn –

Gwariant Gross £59,850

Llai- Incwm Ffioedd a Grant (£4,850)

Llai Defnydd o Balansau (dim)

Gwariant Net £55,000 y galw ar y trethdalwr- sef y “praesept”

Bu i'r praesept gynyddu £7,000 yn 2019-20 ar gyfer ymrwymadau parhaol yn benodol ar y materion canlynol

- cost cyflogaeth,
- cost pensiwn,
- lwfansau aelodau
- chwyddiant

Bu i'r praesept gynyddu £7,000 hefyd yn 2018-19 ar gyfer ymrwymadau parhaol yn benodol ar y materion canlynol

- cost ychwanegol Cynnal Tiroedd,
- darpariaeth barhaol ar gyfer partneriaeth Toiled y Marine
- chwyddiant

Nodwyd mai dim ond £620 sydd yn y gyllideb yn barhaol ar y pennawd “Datblygiadau”.

Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried felly –

- Tanwariant cyllideb 2019-20
- Blaenoriaeth Gwariant y Cyngor 2019-20 a 2020-21
- Canlyniad yr ymgysylltu

Nodwyd fod yn gorddarpariaeth yn cyllideb eleni o £1,340 ar pennawd Pensiwn y Rheolwr ac ac mae yna fan addasiadau eraill cyfwerth a £330 yn gwneud cyfnaswm o £1,670 i ddod allan o'r gyllideb praesept.

Nodwyd mai 1.5% oedd y chwyddiant ar pennwadau gan mai dyna yw y rhagolygon CPI diweddaraf

Sylwadau Aelodau –

HJO – ofni y sefyllfa ariannol y wald ar ol Brexit. O'r farn y dylid ystyried cynnyddu y chwyddiant l warchod y gyllideb.

Pennawd/ Heading	Cyllideb 2019-20 Budger	Addasiad (Gor ddarpariaeth)- Adjustment to the Base	Chwyddiant / Inflation	Cyfanswm / Total	Gwahanaeth/ Variance
Gwaraint / Expenditure	£59,850	(£1,670)	£560	£58,740	(£1,110)
Incwm / Income	(£4,850)	dim	(£70)	(£4,920)	(£70)
Net	£55,000	(£1,670)	£490	(53,820)	(£1,180)

Argymhelliad i'r Cyngor.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi cychwyn adnabod gwariant sydd ei angen gan y Cyngor ar gyfer 2020-21.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn mai dim ond £620 sydd yn y gyllideb yn barhaol ar gyfer "Datblygiadau" ac y bydd angen llunio cynllun gwariant manwl ar gyfer 2020-21 cyn argymhell y parestep derfynol yn Ionawr 2020*

Committee Recommendations.

- i) That the Council accepts that the Finance Committee has begun to identify expenditure required by the Council for 2020-21.*
- ii) That the Council accepts that there is only £620 permanent in the "Development" budget heading and that a detailed spending plan for 2020-21 will need to be drawn up before recommending the final parcel in January 2020*

8 Grŵp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon – Cais Arbennig / Groeslon Defibrillator Group – Special Request

Fe wnaeth AWJ a DCD ddatgan buddiant ar yr eitem hwn fel aelodau o Pwyllgor Neuadd Y Groeslon, Arhosodd y ddau am yr eitem i egluro y sefyllfa i'r aelodau,

Trafodwyd cais gan Pwyllgor Neuadd Y Groeslon i drosglwyddo balansau Grwp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon i'r Cyngor Cymuned.

Adroddwyd gan Cyng. Alun Wyn Jones a David C Davies

- Sefydlwyd Grŵp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon i gasglu arian i gael tri diffribilwir yn y pentref. Lleolwyd un yn Dolydd, un ar y Neuadd a un ger yr ysgol.
- Wrth sefydlu y Grŵp ni agorwyd cyfrif banc ond penderfynwyd defnyddio banc y Neuadd Pentref i gadw'r incwm ac i wneud y taliadau.
- Agorwyd cyfrif banc ar wahân i fusnes arferol y Neuadd.
- Mae yna falans o oddeutu £1600 yn y cyfrif.
- Mae'r balans ar gyfer cynnal y peiriannu a prynu bateris ac ati
- Barn Pwyllgor y Neuadd yw y dylid trosglwyddo yr arian i'r Cyngor Cymuned gan fod y peiriannau ar gyfer y gymuned ehangach ac nid i ddefnyddwyr y Neuadd

- Rhoddwyd dau ddewis – 1) i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr arian a trefnu taliadau (derbyn a talu) neu 2) i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr arian a trosglwyddo arian nol i'r Neuadd yn unol a'r gofyn (derbyn a trosglwyddo)

Adroddwyd gan y Rheolwr ei fod wedi gofyn am arweiniad ar y mater gan Un Llais Cymru yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 16 Medi 2019.

Derbyniwyd yr ymateb ganlynol.

Dau ddewis:

Dderbyn yr arian.

- 1. Trwy dderbyn yr arian, bydd angen i'r Cyngor fanylu yn ei gofnodion y rheswm dros dderbyn yr arian.*
- 2. Awgrymaf fod y swm hwn yn cael ei glustnodi yn y gyllideb fel pennawd ar wahân ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw diffibrilwyr.*
- 3. I bob pwrpas, byddwch yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth ar yr eitem a bydd yn rhaid i chi drefnu i gael yswiriant a gwaith cynnal a chadw.*
- 4. Awgrymaf i'r Cyngor fod y derbyniad hwn yn cael ei nodi yn y cofnodion fel "cael eu gwneud o dan amgylchiadau eithriadol".*

Gwrthod yr arian

Gall y Cyngor ddiodeff ymateb anffafriol gan y cyhoedd.

Barn Aelodau –

EW – yn bryderus fod y Cyngor yn creu cysail ac yn agored i dderbyn ceisiadau tebyg yn y dyfodol. Cwestiwn am berchnogaeth y peiriannau yn codi
HJO - o'r farn nad oes gan y Cyngor hawl statudol i dderbyn yr arian. Angen arweiniad pellach gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Ddim yn fodlon gydag ymateb. Yn cynnig fod y rheolwr yn gofyn am arweiniad gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Tydi'r Grŵp chwaith ddim wedi ei gofrestru fel elusen. Petai wedi ei gofrestru yna mi fyddai gan y Cyngor yr hawl i'w dderbyn
EGO – bydd balansau y Cyngor yn cynyddu. Ydi hyn am godi cwestiwn gan yr Archwilwyr?

Rheolwr - tynnu sylw aelodau y bydd cyfrifoldeb am gynnal y peiriannau yn disgyn ar y Cyngor os penderfynir derbyn yr arian a threfnu'r taliadau. Bydd yna hefyd oblygiadau a chost ychwanegol i yswirio'r peiriannau.

Argymhelliad i'r Cyngor - fod y Cyngor yn oedi rhag gwneud penderfyniad hyd nes y bydd y Pwyllgor hwn wedi derbyn sicrwydd fod gan y Cyngor yr hawl statudol i dderbyn yr arian

Recommendation to Council - that the Council should delay making a decision until this Committee has received assurances that the Council has the statutory right to receive the funding

10 Rheolau Ariannol / Financial Regulations -

Trafodwyd cymal o 4.1 Rheolau Ariannol y Cyngor . Roedd y Rheolwr yn gofyn i'r Pwyllgor argymhell i'r Cyngor i gynyddu gwariant ar eitemau refeniw i fyny at £1,000 yn lle y trothwy presennol o £500 a cadarnhau nad oes angen tri pris at wariant i fyny at y trothwy newydd o £1,000

Argymhelliad y Pwyllgor – fod y Cyngor yn addasu cymal 4.1 i gynyddu y gwariant ar eitemau refeniw i fyny at £1,000 ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd a thrwy hynny derbyn nad oes angen tri pris ar unrhyw wariant o dan £1,000

Recommendation - that the Council modifies clause 4.1 to increase expenditure on revenue items by up to £ 1,000 for that class of expenditure in the approved budget and therefore accepts that three estimates is not required for expenditure under £1,000

RHEOLI Y GYLLIDEB AC AWDURDOD I WARIO

4.1. Gellir awdurdodi gwariant ar eitemau refeniw i fyny at ~~£500~~ **£1,000** ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd. Pennir yr awdurdod hwn gan y Clerc, mewn cydweithrediad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor. Rhaid i awdurdod o'r fath gael ei dystio gan Gofnod neu slip awdurdodi a lofnodwyd yn briodol gan y Clerc, a lle y mae angen, gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.

BUDGETARY CONTROL AND AUTHORITY TO SPEND

4.1 Expenditure on revenue items may be authorised up to ~~£500~~ **£1,000** for amounts included for that class of expenditure in the approved budget. This authority is provided to the Clerk, in conjunction with Chairman or Vice Chairman of Council. Such authority is to be evidenced by a Minute or by an authorisation slip duly signed by the Clerk, and where necessary also by the Chairman or Vice Chairman.

9 Talu Credydwr Syth o'r Banc / Direct To Bank Creditor Payments

Adroddwyd gan y Rheolwr fod credydwr heddiw yn rhoi manylion banc ar anfonebau gan mai taliad uniongyrchol trwy banc sydd fwy cyfleus.

Mae dyddiau arwyddo sieciau yn brysur dod i ben.

Gofynnodd y Rheolwr i aelodau y pwyllgor argymhell i'r Cyngor i awdurdodi taliadau uniongyrchol trwy y banc yn hytrach na taliadau trwy arwyddo sieciau.

Mae sawl mantais i dalu trwy'r banc y benodol-

Arbed costau post

Arbed oedi yn disgwyl i sieciau cael ei cyflwyno

Arbed cyhuddiadau o fod yn araf yn rhyddhau taliadau.

Barn Aelodau-

Yn cytuno mewn egwyddor. DCD am edrych i fewn i'r mater o safbwynt gofynion y banc. Bydd angen trefniant clir ac edrych ar y Rheolau Ariannol

Argymhelliad y Pwyllgor – fod y Cyngor yn derbyn y cais mewn egwyddor gan ofyn i'r Pwyllgor Cyllid edrych ar y mater cyn dod ac argymhelliad terfynol i'r Cyngor.

Committee Recommendation - that the Council accepts the application in principle and asks the Finance Committee to look into the matter before bringing a final recommendation to Council.

11 Aseiad Risg – Trefnau Gweinyddol ac Ariannol / Financial & Administration Financial Risk Assessment

Gohirwyd yr eitem hwn tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	